partneriaeth twristiaeth gogledd cymru

adolygiad blynyddol 2007-08

crynodeb gweithredol

beth i'w wneud

www.breaksnorthwales.co.uk

www.adventure-northwales.com

www.golf-northwales.co.uk

www.walkingnorthwales.co.uk

www.moviemapnorthwales.co.uk

www.eventsnorthwales.co.uk

www.gardensnorthwales.co.uk

www.attractionsnorthwales.co.uk

www.walledtowns.co.uk

partneriaeth twristiaeth gogledd cymru
01745 589020
www.tpnw.org
llun y dudalen flaen: owain glyndŵr cewri gogledd cymru

golff gogledd cymru, *clwb golff nefyn a'r cylch*

rhagair

Bu hon yn flwyddyn o heriau a llwyddiannau i'r economi ymwelwyr yng Ngogledd Cymru.

Rwy'n falch o ddweud fod Partneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru wedi ymateb i'r heriau a wynebwyd gennym – ac i'n tîm bach yma yn Llanelwy y mae llawer o'r diolch am hynny.

Diolch i ymroddiad ein staff a chefnogaeth ein Bwrdd, mae Gogledd Cymru yn dal i gystadlu gyda'r goreuon wrth ddenu ymwelwyr i'r rhanbarth.

O ganlyniad, yn ystod y flwyddyn, rydym wedi cyflawni ein targed o gynhyrchu £16.5 miliwn yn ychwanegol mewn refeniw twristiaeth.

Rydym yn gweithio i wireddu agenda Cymru'n Un sy'n cydnabod bod twristiaeth yn hanfodol i ffyniant economaidd a chreu swyddi ac felly bod angen ei datblygu ar sail ranbarthol er mwyn manteisio i'r eithaf ar adnoddau ac asedau lleol.

Ein cenhadaeth yw hyrwyddo datblygiad strategol y diwydiant twristiaeth wrth i'r farchnad symud fwy a mwy tuag at wyliau byr sy'n seiliedig ar weithgareddau.

Byddwn yn parhau i hyrwyddo'r rhanbarth trwy dynnu sylw at ein diwylliant, ein hanes a'm hamgylchedd nodedig, gan atgyfnerthu ein Naws am Le unigryw yn sgil hynny.

Mae'r realiti ar hyn o bryd yn yr economi ehangach yn gleddyf deufin i'r economi ymwelwyr yng Ngogledd Cymru.

Mae rhesymeg y dirywiad yn golygu bod gan bobl lai o incwm dros ben i'w wario ar wyliau tramor. Un canlyniad yw bod gwyliau'n nes at adref yn haws i'w fforddio ac mae hynny'n golygu cyfle i ni yma yng Ngogledd Cymru.

Hyd yn oed cyn y wasgfa ariannol sydd ohoni, roedd natur twristiaeth wedi newid ac mae'n parhau i esblygu – ac mae hynny'n golygu bod datblygu busnes y tu allan i'r tymor yn hanfodol.

Mae'n rhaid i ni edrych ar dwristiaeth yn ei gyfanrwydd. Nid busnes dyddiau allan a gwyliau'n unig ydyw. Mae angen i ni ddatblygu'r misoedd pontio fel ein bod yn creu cyfle gydol y flwyddyn.

Mae'n hanfodol fod y meysydd marchnata gwahanol yng Ngogledd Cymru'n gweithio mewn partneriaeth a'n bod i gyd yn cydweithio fel tîm.

Mae'n hollbwysig hefyd fod y fasnach a'r cyhoedd a chyrff cyhoeddus, yn cynnwys awdurdodau lleol, yn cyd-dynnu'n llwyr er lles pawb.

Os ydym yn ddoeth ac yn meddwl mewn ffordd gydgysylltiedig, bydd ein synergedd yn golygu bod gan Ogledd Cymru rywbeth sy'n fwy na'i rannau unigol i'w gynnig.

Credaf ein bod yn symud i'r cyfeiriad iawn ond rhaid i ni ddal ati i ymdrechu i wella'r cynnyrch twristiaeth.

Rydym eisiau symud yr economi twristiaeth ac ymwelwyr yn ei blaen yng Ngogledd Cymru ac mae heriau mawr yn ein hwynebu.

Mae arnom angen dull gweithredu strategol fel y gallwn flaenoriaethu'r mathau iawn o fuddsoddiad oherwydd mae'n fyd hynod o gystadleuol allan yna.

Mae yna fwy na 2,000 o gyrchfannau twristiaeth yn Ewrop yn unig ac mae pob un ohonynt yn cystadlu am yr un math o incwm â'r hyn rydym ni'n gobeithio ei gael yng Ngogledd Cymru.

Mae gennym asedau naturiol sydd gyda'r gorau yn y byd - mynyddoedd ysgubol, golygfeydd ysblennydd ac arfordir godidog, heb sôn am ein treftadaeth ddiwylliannol a'n hiaith unigryw. Mae dyletswydd arnom i wneud y gorau o'r hyn sydd gennym.

Mae angen i ni sicrhau bod yr economi ymwelwyr yn dod â manteision i'r cymunedau y mae wedi'i lleoli ynddynt. Felly, rhaid i ni ganolbwyntio ein hymdrechion ar ddatblygu'r diwydiant mewn ffordd gytbwys a chynaliadwy.

Ni yw gwarcheidwaid Gogledd Cymru. Nid oes gennym hawliau, dim ond cyfrifoldebau.

Alison Lea-Wilson
Cadeirydd

Dewi Davies
Cyfarwyddwr Strategaeth Rhanbarthol

crynodeb gweithredol

Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd twristiaeth i iechyd a lles economaidd cyffredinol Gogledd Cymru.

Mae'n ddiwydiant gwerth £1.8 biliwn sy'n gyfrifol am wyth y cant o gynnyrch mewnwladol crynswth y rhanbarth ac yn cyflogi 39,000 o bobl.

Swyddogaeth Partneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru yw rheoli ac annog datblygiad strategol yr economi ymwelwyr.

Unwaith eto eleni rydym wedi comisiynu cyfres o ymgyrchoedd effeithiol i hyrwyddo'r rhanbarth yn frwd mewn marchnadoedd allanol, gan ddibynnu ar ein hasedau unigryw o ran diwylliant, hanes a'r amgylchedd.

Y prif newyddion o safbwynt Partneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru yw ein bod wedi cyflawni ein targed o gynhyrchu gwerth £16.5 miliwn o wariant gan ymwelwyr.

Am bob £1 a wariwyd gennym, daeth £17.80 arall i mewn yn sgil ein hymgyrchoedd.

Rydym yn arbennig o falch o'r record yma oherwydd mae'r pwysau ariannol sy'n effeithio ar Croeso Cymru yn ein llethu ninnau hefyd.

Fel yn achos sefydliadau eraill, cafodd ein cyllideb ei gostwng o £1.444 miliwn i £1.030 miliwn – ac rydym yn disgwyl gostyngiad pellach o £50,000 i'n cyllideb yn 2008-09.

O ganlyniad mae'r Bartneriaeth Twristiaeth wedi rhoi blaenoriaeth i weithio gyda Croeso Cymru a phartneriaid ar draws y rhanbarth i archwilio ffynonellau eraill posibl o gyllid Ewropeaidd i gymryd lle'r arian Amcan Un sy'n tynnu at ei derfyn.

Roedd hon hefyd yn flwyddyn sylfaenol bwysig am sawl rheswm arall, nid yn lleiaf oherwydd bod Uned Ymchwil Economaidd Ysgol Fusnes Caerdydd wedi cynnal adolygiad o'r Partneriaethau Twristiaeth Rhanbarthol, a chyflwyno adroddiad ar eu darganfyddiadau.

Yn ôl tîm yr adolygiad, mae'r Bartneriaeth Twristiaeth hon a'r rhai eraill yn addas i'w pwrpas.

Er bod y rhwydwaith o Bartneriaethau Twristiaeth i barhau, daeth mwy o newid i strwythur sefydliadol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer y sector twristiaeth ddechrau'r flwyddyn.

Yn 2006, roedd Bwrdd Croeso Cymru wedi cael ei uno â Llywodraeth Cynulliad Cymru ac erbyn gwanwyn 2007, symudodd gweithgarwch yr adran a'i holynodd, Croeso Cymru, o'r Adran Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau i'r Adran Dreftadaeth.

Penodwyd Rhodri Glyn Thomas AC yn Weinidog dros Dreftadaeth yn dilyn etholiadau Llywodraeth y Cynulliad ym mis Mai 2007 ac yn fuan ar ôl iddo gael ei benodi, treuliodd ddiwrnod yn crwydro Gororau Gogledd Cymru.

Roedd yr ymweliad yn cynnwys taith gamlas dros Draphont Ddŵr Froncysyllte pan fynegodd ei gefnogaeth ddiamwys i'r ymgyrch i berswadio UNESCO i roi Statws Treftadaeth Byd i'r campwaith peirianneg o eiddo Thomas Telford.

Disgwylir penderfyniad terfynol gan UNESCO yn 2009. Byddai cael safle Treftadaeth Byd arall ochr yn ochr â chestyll Gwynedd ac Ynys Môn, i gyd-fynd â'r pyramidiau a'r Taj Mahal, yn hwb aruthrol i'r economi ymwelwyr ledled Gogledd Cymru.

Mae Partneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru wedi cynhyrchu ei chynllun busnes i gyd-fynd â'r penawdau bras a amlinellir yn y Strategaeth Dwristiaeth Genedlaethol, Cyflawni ein Potensial 2006/13.





lluniau:
chwith
traphont ddŵr pontncysyllte telford ***cewri gogledd cymru***
o'r brig i lawr
eryri eich copa nesaf **cynadleddau gogledd cymru**
gŵyl fwyd yr wyddgrug **digwyddiadau gogledd cymru**
diolch i Graham Catherall am y llun
llangollen ***antur gogledd cymru***

cynllun busnes

brandio nodedig

Wrth edrych i'r dyfodol, rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r fasnach dwristiaeth ar brosiect uchelgeisiol i hyrwyddo brand nodedig ar gyfer Gogledd Cymru, sy'n tynnu sylw at ein Naws am Le Unigryw.

Rhaid i ni gyflwyno delwedd ddeniadol a chyson o'r rhanbarth i ddarpar ymwelwyr, un sy'n ein gosod ar wahân i gyrchfannau ymwelwyr eraill. Mae ein cynnig ar gyfer brand yn seiliedig ar faes chwarae awyr agored, y Byd Mawr Tu Allan.

Cafodd Brandio Gogledd Cymru (Hybu Twristiaeth yn Ein Rhanbarth) dderbyniad da gan Croeso Cymru a'i gyflwyno gam wrth gam i 3,000 o fusnesau twristiaeth yn y rhanbarth.

Rhoddwyd cyflwyniadau i nifer o gyfarfodydd cyffredinol a hyfforddiant penodol ar "Dôn y Llais" i bartneriaid a dylunwyr.

Roedd y gwaith brandio yn sail i'n hymgyrchoedd, yn cynnwys Gwyliau Byr Gogledd Cymru sydd wedi'i anelu at bobl sy'n hoff o grwydro'n annibynnol.

Mae gwyliau byr wrth wraidd ein strategaeth gyfan. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith fod wyneb twristiaeth yn newid yng Ngogledd Cymru a gweddill y DU, newid a ddigwyddodd yn wreiddiol oherwydd bod teithiau hedfan rhad ar gael ar draws Ewrop.

Bellach, mae'r dirywiad economaidd, ynghyd â phryderon amgylcheddol, wedi arwain at ostyngiad yn nifer y bobl sy'n mynd ar wyliau tramor.

Ar y we y mae prif bwyslais yr ymgyrch gyda chyfleuster i archebu llety ar-lein. Paratowyd taflen newydd ar Wyliau Byr, ailwampiwyd y wefan yn sylweddol a phennwyd 100,000 o ymweliadau unigryw fel targed ar gyfer y flwyddyn.

Mae'r arwr Cymreig mwyaf erioed, yn ôl pob tebyg, sef Owain Glyndŵr, yn cymryd ei le priodol fel arweinydd ar dudalen flaen y daflen Cewri Gogledd Cymru.

Ond mae gennym hefyd gewri llenyddol, cewri'r gân, cewri o ran gweledigaeth, cestyll, chwedlau, llechi a chewri cysegredig.

Mae pob un ohonynt yn cyfoethogi ein diwylliant a'n treftadaeth. Maen nhw'n darparu gwahanol resymau i bobl ddod i Ogledd Cymru am wyliau byr yn hytrach na mynd i lefydd fel Ardal y Llynnoedd, yr Alban, Dyfnaint a Chernyw.

Paratowyd taflen ar y Cewri yn Gymraeg a Saesneg yn ogystal â gwefan 25,000 gair. Roedd y galw am y daflen trwy ymgyrch farchnata uniongyrchol Croeso Cymru yn ardderchog gan gynhyrchu cyfradd ymateb o 15 y cant.

Roedd neilltuo Lerpwl yn Brifddinas Diwylliant Ewrop yn 2008 yn creu cyfle rhagorol arall i'r rhanbarth.

Tynnu sylw at gyfres o weithgareddau o dan faner Gogledd Cymru '08 oedd y syniad a pharatowyd taflen yn tynnu sylw at 30 o ddigwyddiadau diwylliannol. Datblygwyd tudalen ar wahân ar y we hefyd.

Mae garddio'n sector sydd ar i fyny ac mae'r Bartneriaeth Twristiaeth yn awyddus i'w weld yn tyfu. O ganlyniad rydym wedi lansio ymgyrch fawr i ddenu garddwyr brwd i Ogledd Cymru.

Yn sicr mae'n werth yr ymdrech gan fod yr enillion posibl yn enfawr. Amcangyfrifir bod 20 miliwn o arddwyr ym Mhrydain ac mae'r farchnad yn werth £5 biliwn y flwyddyn – ac mae'n tyfu ar raddfa o 20 y cant bob blwyddyn.

Dadorchuddiwyd y daflen a'r wefan newydd Gerddi Gogledd Cymru gan un o'n hyrwyddwyr garddwriaethol mwyaf adnabyddus a llwyddiannus, sef Medwyn Williams, sydd wedi ennill llu o wobrau yn ystod ei yrfa, yn y Sioe Arddio yn Llangollen.

Mae twristiaeth fusnes yn farchnad sy'n creu elw cynyddol. Datgelodd adroddiad a gomisiynwyd gan Bartneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru ac a ariannwyd gan Fforwm Economaidd Gogledd Cymru bod twristiaeth fusnes yn cynhyrchu £60 miliwn o refeniw ychwanegol yn y rhanbarth bob blwyddyn.

Bellach mae'n gyfrifol am ryw chwech y cant o'n heconomi ymwelwyr a 130 o gyrchfannau ledled Cymru sy'n bennaf gyfrifol am ddenu'r arian hwnnw.

Lluniwyd cynllun gweithredu i ail-ganolbwyntio ein hymdrechion er mwyn cynyddu gwerth a maint twristiaeth fusnes yn y rhanbarth.

Roedd yn cynnwys sefydlu Cynadleddau Gogledd Cymru ac ymgyrch farchnata gysylltiedig yn costio £75,000.

Cefnogodd y Bartneriaeth Twristiaeth yr ymgyrch i ddatblygu marchnad mordeithiau pleser hefyd, a hyrwyddo Caergybi fel man aros ar gyfer llongau pleser.

Rhoddwyd cymorth ariannol i helpu i dalu am farchnata tramor a domestig ynghyd â chroesawu teithwyr i Gaergybi oddi ar oddeutu wyth llong.

Cynhaliwyd astudiaeth i nodi potensial buddsoddi llawn datblygu cyfleuster angori dwfn newydd yng Nghaergybi, o ystyried y gystadleuaeth o du'r derfynfa newydd yn Lerpwl.

gwell ansawdd

Clustnodwyd gwella ansawdd y profiad twristiaeth fel blaenoriaeth i Bartneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru ac rydym wedi comisiynu amryw o fentrau.

Yn eu mysg roedd ymgyrch i dacluso Gogledd Cymru, Rheoli Ansawdd Integredig, fel ei fod yn gyrchfan mwy deniadol fyth i ymwelwyr.

Roedd pecynnau cymorth arbennig ar gael ym mhob un o bum Ardal Twf Twristiaeth dynodedig y rhanbarth. Cafwyd ymateb arbennig o frwdfrydig yn Wrecsam, Conwy, Llandudno, Deganwy a Betws-y-coed.

Mae'r Cwmni Twristiaeth wedi cychwyn ar adolygiad o'r Ardaloedd Twf Twristiaeth ar ran Croeso Cymru.

Yn y cyfamser, blaenoriaeth arall oedd perswadio mwy o atyniadau i gymryd rhan yn y cynllun Gwasanaeth Sicrhau Ansawdd Atyniadau Ymwelwyr trwy dalu am ymweliadau ymgynghorol.

Gyda Chwpan Ryder 2010 ar y gorwel, mae'r ymdrech i hyrwyddo Gogledd Cymru fel cyrchfan ddeniadol i rai sy'n chwarae golff mor bwysig ag erioed.

Comisiynwyd taflen Golff Gogledd Cymru, DVD a gwefan gennym, a oedd yn cynnwys gwasanaeth archebu ar-lein, gyda'n cydgysylltydd golff yn cysylltu â'r clybiau golff.

Yn ddi-os mae Gogledd Cymru eisoes wedi manteisio o ymwneud ag ymgyrch Chwpan Ryder ac mae'r ffotograff trawiadol o Clwb Golff Nefyn a'r Cylch wedi'i ddosbarthu i bob cwr o'r byd.

Bu presenoldeb cyson ar stondinau arddangos drwy'r byd a chynhyrchodd llinell archebu'r Siop Un Stop fwy na £100,000 yn ystod ei blwyddyn gyntaf.

Mae'r ymgyrch i ddenu cerddwyr i Ogledd Cymru'n rhoi llwybr arall i ffyniant i ni.

Mae Cerdded Gogledd Cymru'n cynnwys 14 o deithiau cerdded gwych yn yr awyr agored. Uwchraddiwyd y tudalennau ar y we a'u cynnwys o fewn y brand. Ar yr un pryd, cynhyrchodd ymgyrch Croeso Cymru drwy'r post alw am 12,000 o daflenni.

mynediad haws

Rydym wedi ymrwymo i wneud Gogledd Cymru'n fwy hygyrch fel cyrchfan i ymwelwyr.

Mae e-fasnach yn dod yn bwysicach nag erioed wrth alluogi'r diwydiant twristiaeth i gyfathrebu'n fwy effeithiol â chwsmeriaid.

Defnyddiwyd cronfeydd data electronig a oedd yn perthyn i gymdeithasau masnach a busnesau annibynnol i drosglwyddo taflenni newyddion misol, gyda manylion am ddigwyddiadau a chynigion oedd ar y gorwel.

Cynyddodd nifer y busnesau sy'n defnyddio'r templed rhad ac am ddim www.info4u.co.uk i greu cylchlythyr electronig i 373.

Yn y cyfamser, ariannodd y Bartneriaeth Twristiaeth gyfleuster archebu canolog ar gyfer y rhanbarth hefyd. Mae'r dull archebu traddodiadol hwn yn dal i fod yn bwysig er ei fod yn cynhyrchu llai o fusnes nag yr arferai.

Gwnaed cynnydd wrth ddatblygu Map Ffilmiau Gogledd Cymru, a gynlluniwyd i annog pobl i ymweld â mannau a ddefnyddiwyd gan y diwydiant ffilm a theledu yn y rhanbarth. Bellach mae'r wefan yn cynnwys 56 o leoliadau ffilm a theledu.

Cytunwyd hefyd i roi blaenoriaeth i ddatblygu gwefan Atyniadau Gogledd Cymru gyda'r nod o ddenu 100,000 o ymwelwyr bob blwyddyn.

Yn yr un modd, pennwyd targedau penodol hefyd ar gyfer yr ymgyrchoedd Digwyddiadau Gogledd Cymru ac Antur Gogledd Cymru. Unwaith eto, roedd y ffordd y cawsant eu strwythuro'n adlewyrchu

lluniau
chwith
moel famau ***cerdded gogledd cymru***
o'r brig i lawr
y byd mawr tu allan brand ***gogledd cymru***
david lloyd george ***cewri gogledd cymru***
portmeirion ***gerddi gogledd cymru***
melin llynnon ***atyniadau gogledd cymru***

conwy ***trefi caerog***

gwell sgiliau

pwysigrwydd cynyddol e-fasnach.

Sylweddolodd y Bartneriaeth Twristiaeth ei bod yn bwysig helpu pobl sy'n ymwneud â'r diwydiant i wella eu sgiliau.

Mewn partneriaeth â Fforwm Hyfforddiant Twristiaeth Cymru, rydym wedi comisiynu nifer o fentrau ar y cyd.

Rydym wedi cefnogi mentrau e-ddysgu fel y gall busnesau twristiaeth ymateb i chwyldro'r rhyngrwyd er mwyn cystadlu yn y farchnad fyd-eang.

Yn ystod y 10 mlynedd diwethaf, mae'r defnydd o'r rhyngrwyd wedi cynyddu 20 gwaith gyda chyfanswm defnyddwyr y we yn mynd heibio'r biliwn yn y ddwy flynedd diwethaf.

Mae Ewrop yn farchnad arbennig o soffistigedig, yn enwedig y DU a'r Almaen lle disgwylir i ganran y gwariant ar-lein ar dwristiaeth fynd heibio 50 y cant yn y ddwy flynedd nesaf.

Darparwyd arian i helpu i ddatblygu Web4-U fel arf dysgu a sicrhau bod busnesau twristiaeth yn cymryd mwy o

partneriaethau cryfach

ran mewn marchnata ar y we.

Aeth y Bartneriaeth Twristiaeth ati i gryfhau partneriaethau oedd eisoes yn bodoli er mwyn sicrhau bod y diwydiant yn cydweithio'n fwy effeithiol nag erioed.

Nodwyd y rhwydwaith o Bartneriaethau Ardal Farchnata fel elfen allweddol wrth gyflawni'r amcan hwn.

Cadarnhawyd pum prosiect ar Ynys Môn, ac roedd rownd agoriadol Gwobrau Twristiaeth Ynys Môn yn eithriadol o lwyddiannus. Datblygiad cadarnhaol arall oedd y cyhoeddiad yn tynnu sylw at atyniadau treftadaeth Ynys Môn.

Cefnogwyd pum prosiect hefyd ym Mynyddoedd ac Arfordir Eryri. Y pwysicaf ohonynt oedd parhau i farchnata Atyniadau Eryri y tu allan i'r tymor, cryfhau Partneriaeth Twristiaeth Llŷn a'r gwaith a wnaed gyda Cwlwm Diwylliant, cyfle newydd i dwristiaeth ddiwylliannol.

Yng Nghyrchfannau Arfordirol y Gorllewin, roedd gweithgarwch yn dal i gefnogi'r sector manwerthu yn Llandudno, Conwy a Bae Colwyn, yn dilyn codi'r ganolfan siopa newydd yn Llandudno. Cynhaliwyd ymgyrch farchnata ar y cyd hefyd i hyrwyddo Atyniadau Llandudno a phum digwyddiad amlwg yn ardal yr arfordir a'r sir.

Yn y cyfamser, yng Nghyrchfannau Arfordirol y Dwyrain, roedd cefnogaeth barhaus i'r ymgyrch Funtime i hyrwyddo'r Rhyl a Phrestatyn fel cyrchfan i deuluoedd.

Ymhellach i'r dwyrain, yng Ngororau Gogledd Cymru, datblygwyd cyhoeddiad newydd i gefnogi'r consortiwm o atyniadau yn yr ardal. Defnyddiwyd yr arian oedd yn weddill i brynu hysbysebion ychwanegol ym mhrif lyfrau tywys Croeso Cymru.

Roedd yr Ymgyrch Trefi Caerog, a sefydlwyd gan gonsortiwm o awdurdodau lleol, yn dal i lwyddo i ddenu ymwelwyr i Ogledd Cymru.

Unwaith eto, ymunodd trefi Biwmares, Caernarfon, Conwy a Dinbych â Chaer i drefnu ymgyrch farchnata ryngwladol wedi'i hanelu'n bennaf at yr Unol Daleithiau gyda gwefan newydd yn darparu ffenestr siop ddeniadol ar-lein.

Cyfarwyddwyr Masnach

Alison Lea-Wilson	Cadeirydd
Barbara Griffiths	Is-gadeirydd
David Robertson	Ardal Farchnata Ynys Môn
David Williams MBE	Ardal Farchnata Cyrchfannau Arfordir Gogledd Cymru
Bob Costain	Ardal Farchnata Gororau Gogledd Cymru

Cynghorwyr Masnach i'r Bwrdd

John Les Tomos	Cymdeithas Dwristiaeth Sir y Fflint
Darryl Shaw	Fforwm Twristiaeth Wrecsam
James Hewett	Ardal Farchnata Mynyddoedd ac Arfordir Eryri
Anwen Jones	Ardal Farchnata Mynyddoedd ac Arfordir Eryri

Cyfarwyddwyr Awdurdod Lleol

Cyng R H Wyn Williams	Is-gadeirydd Cyngor Gwynedd
Cyng Hefin Wyn Thomas	Enwebai Cyngor Sir Ynys Môn
Cyng Tony Tobin	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cyng Sue Roberts	Cyngor Sir Ddinbych
Dr Dawn Roberts	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Cyng Derek Butler	Cyngor Sir y Fflint
Cyng Liz Roberts	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Mae fersiwn llawn Adolygiad Blynyddol 2007-08 ar gael yn www.tpnw.org